



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2019 Rhif 1492 (Cy. 271)

2019 No. 1492 (W. 271)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**EXITING THE EUROPEAN
UNION, WALES**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

Rheoliadau Organeddau a
Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng
yn Fwriadol a'u Symud ar draws
Ffin) (Diwygiadau Amrywiol)
(Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2)
2019

The Genetically Modified
Organisms (Deliberate Release and
Transboundary Movement)
(Miscellaneous Amendments)
(Wales) (EU Exit) (No. 2)
Regulations 2019

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rhan 3 o Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol a'u Symud ar draws Ffin) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/379 (Cy. 94)) ("Rheoliadau 2019") ac yn ei hail-wneud gyda diwygiadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys o ran Cymru, sy'n ymwneud â rheoli a rheoleiddio gollwng yn fwriadol organeddau a addaswyd yn enetig, eu gosod ar y farchnad a'u symud ar draws ffin.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations are made in exercise of the powers conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2 and paragraph 21 of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16) in order to address failures of retained EU law to operate effectively and other deficiencies arising from the withdrawal of the United Kingdom from the European Union.

These Regulations revoke and remake with amendments Part 3 of the Genetically Modified Organisms (Deliberate Release and Transboundary Movement) (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019 (S.I. 2019/379 (W. 94)) ("the 2019 Regulations").

These Regulations make amendments to subordinate legislation, which applies in relation to Wales, relating to the control and regulation of the deliberate release, placing on the market, and transboundary movement of genetically modified organisms.

Mae rheoliadau 2 a 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau amrywiol i is-ddeddfwriaeth Gymreig er mwyn cywiro unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheoliad 4 yn dirymu darpariaethau amrywiol gan gynnwys Rhan 3 o Reoliadau 2019.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Regulations 2 and 3 of these Regulations make various amendments to Welsh subordinate legislation in order to correct failures of retained EU law to operate effectively and other deficiencies arising from withdrawal from the European Union.

Regulation 4 revokes various provisions including Part 3 of the 2019 Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a Regulatory Impact Assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2019 Rhif 1492 (Cy. 271)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Organeddau a
Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng
yn Fwriadol a'u Symud ar draws
Ffin) (Diwygiadau Amrywiol
(Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2)
2019

Gwnaed

4 Rhagfyr 2019

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1).

Yn unol â pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

Yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

2019 No. 1492 (W. 271)

**EXITING THE EUROPEAN
UNION, WALES**

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

The Genetically Modified
Organisms (Deliberate Release and
Transboundary Movement)
(Miscellaneous Amendments)
(Wales) (EU Exit) (No. 2)
Regulations 2019

Made

4 December 2019

*Coming into force in accordance with
regulation 1(2) and (3)*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2 and paragraph 21 of Schedule 7 to, the European Union (Withdrawal) Act 2018(1).

In accordance with paragraph 1(9) of Schedule 7 to that Act, a draft of this instrument has been laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

In accordance with paragraph 4 of Schedule 2 to that Act, the Welsh Ministers have consulted with the Secretary of State.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol a'u Symud ar draws Ffin) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019.

(2) Daw rheoliadau 1 a 4 i rym yn union cyn y diwrnod ymadael.

(3) Daw rheoliadau 2 a 3 i rym ar y diwrnod ymadael.

Diwygiadau i Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002

2.—(1) Mae Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) hepgorer y diffiniad o “y Rheoliad Bwyd a Bwyd Anifeiliaid” (“*the Food and Feed Regulation*”);

(b) yn lle'r diffiniad o “cynnyrch wedi'i gymeradwyo” (“*approved product*”) rhodder—

“ystyr “cynnyrch wedi'i gymeradwyo” (“*approved product*”) yw—

(a) cynnyrch y caniatwyd iddo gael ei farchnata yng Nghymru drwy—

(i) caniatâd a roddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 111(1) o'r Ddeddf,

(ii) awdurdodiad o dan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1829/2003 ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig, neu

(b) cynnyrch wedi'i gymeradwyo cyn y diwrnod ymadael;”;

(c) hepgorer y diffiniad o “y Comisiwn” (“*the Commission*”);

(d) hepgorer y diffiniad o “y Gyfarwyddeb Defnydd Amgaeedig” (“*the Contained Use Directive*”);

(e) yn y lle priodol mewnosoder—

“ystyr “cynnyrch wedi'i gymeradwyo cyn y diwrnod ymadael” (“*pre-exit approved product*”) yw cynnyrch y caniatwyd, yn union cyn y diwrnod ymadael, iddo gael ei farchnata yng Nghymru drwy—

Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Genetically Modified Organisms (Deliberate Release and Transboundary Movement) (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) (No. 2) Regulations 2019.

(2) Regulations 1 and 4 come into force immediately before exit day.

(3) Regulations 2 and 3 come into force on exit day.

Amendments to the Genetically Modified Organisms (Deliberate Release) (Wales) Regulations 2002

2.—(1) The Genetically Modified Organisms (Deliberate Release) (Wales) Regulations 2002(1) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1)—

(a) omit the definition of “the Food and Feed Regulation” (“*y Rheoliad Bwyd a Bwyd Anifeiliaid*”);

(b) for the definition of “approved product” (“*cynnyrch wedi'i gymeradwyo*”) substitute—

““approved product” (*cynnyrch wedi'i gymeradwyo*)” means—

(a) a product permitted to be marketed in Wales by—

(i) a consent granted by the Welsh Ministers under section 111(1) of the Act,

(ii) an authorisation under Council Regulation (EC) No 1829/2003 on genetically modified food and feed, or

(b) a pre-exit approved product;”;

(c) omit the definition of “the Commission” (“*y Comisiwn*”);

(d) omit the definition of “the Contained Use Directive” (“*y Gyfarwyddeb Defnydd Amgaeedig*”);

(e) in the appropriate place insert—

““pre-exit approved product” (“*cynnyrch wedi'i gymeradwyo cyn y diwrnod ymadael*”) means a product which, immediately before exit day, was permitted to be marketed in Wales by—

(1) O.S. 2002/3188 (Cy. 304), a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/1913 (Cy. 156) ac O.S. 2018/1216 (Cy. 249).

(1) S.I. 2002/3188 (W. 304), amended by S.I. 2005/1913 (W. 156) and S.I. 2018/1216 (W. 249).

(a) caniatâd a roddwyd yn unol ag Erthygl 15(3), 17(6) neu 18(2) o'r Gyfarwyddeb Gollyngiadau Bwriadol neu Erthygl 13(2) neu (4) o Gyfarwyddeb 1990, neu

(b) awdurdodiad o dan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1829/2003 ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig,

ac na thynnwyd y caniatâd neu'r awdurdodiad perthnasol yn ôl, neu nad yw'r caniatâd neu'r awdurdodiad perthnasol wedi peidio â bod yn ddilys fel arall, mewn cysylltiad ag ef;”.

(3) Yn rheoliad 10, hepgorer y geiriau o “gollwng yn unol â chaniatâd” hyd at “neu lle mae”.

(4) Yn rheoliad 12(1)(ch)—

(a) hepgorer y geiriau o “ar y ffurf” hyd at “Bwriadol;”;

(b) ar y diwedd, mewnosoder “, ar y ffurf berthnasol a nodir yn yr Atodiad i Benderfyniad y Cyngor 2002/813/EC”.

(5) Yn rheoliad 16—

(a) yn lle paragraff (b) rhodder—

“(b) lle mae organeddau a addaswyd yn enetig wedi'u rhoi ar gael ar gyfer gweithgareddau a reoleiddir o dan Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Amgaeëdig) 2014(1);”;

(b) hepgorer paragraff (c);

(c) ym mharagraff (ch), yn lle “;” rhodder “; neu” ;

(d) yn lle paragraff (d) rhodder—

“(d) lle mae organedd a addaswyd yn enetig a gynhwysir mewn cynnyrch meddygol a awdurdodir o dan Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012(2) neu Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013(3) yn cael ei farchnata.”;

(e) hepgorer paragraff (e).

(6) Yn rheoliad 17(2)—

(a) yn is-baragraff (b)—

(a) a consent granted in accordance with Article 15(3), 17(6) or 18(2) of the Deliberate Release Directive or Article 13(2) or (4) of the 1990 Directive, or

(b) an authorisation under Council Regulation (EC) No 1829/2003 on genetically modified food and feed,

and in respect of which the relevant consent or authorisation has not been withdrawn or otherwise become invalid;”.

(3) In regulation 10, omit the words from “release is” to “or in which”.

(4) In regulation 12(1)(d)—

(a) omit the words from “, in the format” to “Directive;”;

(b) at the end, insert “in the relevant format set out in the Annex to Council Decision 2002/813/EC”.

(5) In regulation 16—

(a) for paragraph (b) substitute—

“(b) genetically modified organisms are made available for activities regulated under the Genetically Modified Organisms (Contained Use) Regulations 2014(1);”;

(b) omit paragraph (c);

(c) in paragraph (d) for “;” substitute “; or”;

(d) for paragraph (e) substitute—

“(e) a genetically modified organism, which is contained in a medicinal product authorised under the Human Medicines Regulations 2012(2) or the Veterinary Medicines Regulations 2013(3), is marketed.”;

(e) omit paragraph (g).

(6) In regulation 17(2)—

(a) in sub-paragraph (b)—

(1) O.S. 2014/1663.

(2) O.S. 2012/1916, a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/235, 2013/1855, 2013/2593, 2014/323, 2014/324, 2014/490, 2014/1878, 2015/178, 2015/259, 2015/354, 2015/903, 2015/1503, 2015/1862, 2015/1879, 2016/186, 2016/190, 2016/696, 2017/715, 2017/1322, 2018/199 a 2018/378.

(3) O.S. 2013/2033, a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/599 a 2018/761.

(1) S.I. 2014/1663.

(2) S.I. 2012/1916, amended by S.I. 2013/235, 2013/1855, 2013/2593, 2014/323, 2014/324, 2014/490, 2014/1878, 2015/178, 2015/259, 2015/354, 2015/903, 2015/1503, 2015/1862, 2015/1879, 2016/186, 2016/190, 2016/696, 2017/715, 2017/1322, 2018/199 and 2018/378.

(3) S.I. 2013/2033, amended by S.I. 2014/599 and 2018/761.

- (i) yn lle “Undeb Ewropeaidd” rhodder “Deyrnas Unedig”;
 - (ii) hepgorer y geiriau o “neu i awdurdod cymwys arall” hyd at y diwedd;
 - (b) yn is-baragraff (e), ar ôl “Bwriadol” mewnosoder “, fel y’i darllenir gyda’r nodiadau cyfarwyddyd a nodir ym Mhenderfyniad y Cyngor 2002/811/EC,”;
 - (c) yn is-baragraff (g), yn lle’r geiriau o “a sefydlwyd gan y Comisiwn” hyd at y diwedd, rhodder “a nodir yn yr Atodiad i Benderfyniad y Cyngor 2002/812/EC”.
- (7) Yn rheoliad 21—
- (a) hepgorer paragraff (c);
 - (b) ym mharagraff (dd), hepgorer y geiriau o “ac unrhyw sylwadau a wnaed” hyd at y diwedd.
- (8) Yn rheoliad 22—
- (a) ym mharagraff (3), hepgorer “a sicrhau bod ei benderfyniad yn cael ei gyfathrebu i’r Comisiwn”;
 - (b) yn lle paragraff (6) rhodder—
“(6) Rhaid i’r wybodaeth a gyflwynir yn unol â pharagraff (5) gael ei darparu ar y ffurf a nodir yn yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 2003/701/EC.”
- (9) Yn lle rheoliad 24 rhodder—

- (i) for “European Union” substitute “United Kingdom”;
 - (ii) omit the words from “or to another competent authority” to the end;
 - (b) in sub-paragraph (g), after “Directive” insert “, as read with the guidance notes set out in Council Decision 2002/811/EC,”;
 - (c) in sub-paragraph (j), for the words from “established by the Commission” to the end, substitute “set out in the Annex to Council Decision 2002/812/EC”.
- (7) In regulation 21—
- (a) omit paragraph (c);
 - (b) in paragraph (f), omit the words from “and any comments made” to the end.
- (8) In regulation 22—
- (a) in paragraph (3), omit “and shall ensure that its decision is communicated to the Commission”;
 - (b) for paragraph (6) substitute—
“(6) Information submitted in accordance with paragraph (5) must be provided in the format set out in the Annex to Commission Decision 2003/701/EC.”
- (9) For regulation 24 substitute—

“Dyletswyddau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â cheisiadau am ganiatâd i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig

24.—(1) Ar ôl cael cais am ganiatâd i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig o dan adran 111(1) o’r Ddeddf rhaid i Weinidogion Cymru—

- (a) hysbysu’r ceisydd yn ysgrifenedig o’r dyddiad y daeth y cais i law;
- (b) archwilio’r cais i weld a yw’n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf a’r Rheoliadau hyn ac, os yw hynny’n angenrheidiol, gofyn i’r ceisydd gyflenwi gwybodaeth ychwanegol yn unol ag adran 111(6) o’r Ddeddf;
- (c) cyn diwedd y cyfnod o 90 diwrnod gan ddechrau â’r diwrnod y daeth y cais i law naill ai—
 - (i) anfon at y ceisydd adroddiad asesu a baratowyd yn unol ag Atodlen 4 sy’n nodi y dylid caniatáu i’r organeddau a addaswyd yn enetig gael eu marchnata ac o dan ba amodau, neu

“Duties of the Welsh Ministers in relation to applications for consent to market genetically modified organisms

24.—(1) Following the receipt of an application for consent to market genetically modified organisms under section 111(1) of the Act the Welsh Ministers must—

- (a) inform the applicant in writing of the date of receipt of the application;
- (b) examine the application for its conformity with the requirements of the Act and of these Regulations and, if necessary, request the applicant to supply additional information pursuant to section 111(6) of the Act;
- (c) before the end of a period of 90 days beginning with the day on which they received the application either—
 - (i) send to the applicant an assessment report prepared in accordance with Schedule 4 which indicates that the genetically modified organisms should be permitted to be marketed and under which conditions, or

- (ii) gwrthod y cais, gan ddatgan y rhesymau dros eu penderfyniad, a hynny wedi'i ategu gan adroddiad asesu a baratowyd yn unol ag Atodlen 4 sy'n nodi na ddylid marchnata'r organeddau a addaswyd yn enetig.

(2) Nid yw'r cyfnod o 90 diwrnod a ragnodir ym mharagraff (1)(c) yn cynnwys unrhyw gyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o dan adran 111(6) o'r Ddeddf fod angen gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r cais a chan ddiweddu ar y diwrnod y daeth yr wybodaeth honno i law Gweinidogion Cymru.

(3) Pan fo'r adroddiad asesu y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(c) yn nodi y dylid caniatáu i'r organeddau a addaswyd yn enetig y mae'r cais yn ymwneud â hwy gael eu marchnata, rhaid i Weinidogion Cymru wahodd unrhyw berson, drwy gyfrwng cais sy'n cael ei osod ar y gofrestr, i gyflwyno sylwadau ar yr adroddiad asesu, a rhaid iddynt ddod i law Gweinidogion Cymru o fewn cyfnod o 30 diwrnod gan ddechrau â'r diwrnod y gosodir y cais ar y gofrestr (ac ni chaiff hynny fod yn gynt na'r diwrnod y gosodir yr adroddiad asesu ar y gofrestr o dan reoliad 35(7A)."

(10) Yn lle rheoliad 25 rhodder—

“Penderfyniadau gan Weinidogion Cymru ar geisiadau am ganiatâd i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig

25.—(1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru gytuno ar gais am ganiatâd i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig o dan adran 111(1) o'r Ddeddf fel y mae'n ymwneud â diogelu iechyd dynol heb gytundeb yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru'n gwahodd sylwadau ar adroddiad asesu sy'n ymwneud â chais am ganiatâd i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig—

- (a) ni chaiff Gweinidogion Cymru benderfynu cytuno ar gais, neu ei wrthod, cyn i'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau o dan reoliad 24(3) ddod i ben a chyn i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir yn unol â'r rheoliad hwnnw;
- (b) rhaid i Weinidogion Cymru, o fewn 105 o ddiwrnodau ar ôl diwedd y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau o dan reoliad 24(3)—

- (ii) refuse the application, stating reasons for their decision, supported by an assessment report prepared in accordance with Schedule 4 which indicates that the genetically modified organisms should not be marketed.

(2) The 90 day period prescribed in paragraph (1)(c) does not include any period beginning with the day on which the Welsh Ministers give notice in writing under section 111(6) of the Act that further information in respect of the application is required and ending on the day on which that information is received by the Welsh Ministers.

(3) Where the assessment report referred to in paragraph (1)(c) indicates that the genetically modified organisms to which an application relates should be permitted to be marketed, the Welsh Ministers must invite any person, by means of a request placed on the register, to make representations on the assessment report, which must be received by the Welsh Ministers within a period of 30 days beginning with the day on which the request is placed on the register (which must not be earlier than the day on which the assessment report is placed on the registers under regulation 35(7A)."

(10) For regulation 25 substitute—

“Decisions by the Welsh Ministers on applications for consent to market genetically modified organisms

25.—(1) The Welsh Ministers must not grant an application for consent to market genetically modified organisms under section 111(1) of the Act as it relates to the protection of human health without the agreement of the Health and Safety Executive.

(2) Where the Welsh Ministers invite representations on an assessment report relating to an application for consent to market genetically modified organisms—

- (a) the Welsh Ministers must not determine whether to grant or refuse the application before the period for making representations under regulation 24(3) has ended and the Welsh Ministers have considered any representations made in accordance with that regulation;
- (b) the Welsh Ministers must, within 105 days after the end of the period for making representations under regulation 24(3)—

- (i) penderfynu ar y cais, a
- (ii) hysbysu'r ceisydd yn ysgrifenedig am y penderfyniad i gytuno ar y cais, neu ei wrthod, a'r rhesymau dros y penderfyniad.

(3) Nid yw'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(b) yn cynnwys unrhyw gyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o dan adran 111(6) o'r Ddeddf bod rhagor o wybodaeth yn ofynnol mewn cysylltiad â'r cais, ac sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae'r wybodaeth honno yn dod i law Gweinidogion Cymru.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6), caiff caniatâd i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig gael ei roi am uchafswm cyfnod o ddeng mlynedd gan ddechrau â'r diwrnod pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi caniatâd o dan adran 111 o'r Ddeddf.

(5) Rhaid i gyfnod y caniatâd cyntaf i farchnata—

- (a) organedd a addaswyd yn enetig, neu
- (b) epil o'r organedd hwnnw a addaswyd yn enetig sydd wedi'i gynnwys mewn amrywiad planhigyn lle mae'r amrywiad planhigyn wedi'i fwriadu ar gyfer marchnata ei hadau yn unig,

ddod i ben fan bellaf ddeng mlynedd ar ôl y dyddiad y cynhwyswyd am y tro cyntaf yr amrywiad planhigyn cyntaf sy'n cynnwys yr organedd a addaswyd yn enetig ar Restr Genedlaethol yn unol â rheoliad 3 o Reoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) 2001(1).

(6) At y diben o roi caniatâd i farchnata organedd a addaswyd yn enetig sydd wedi'i gynnwys mewn deunydd fforest atgynhyrchiol, bydd cyfnod y caniatâd cyntaf yn dod i ben fan bellaf ddeng mlynedd ar ôl y dyddiad penodedig.

(7) Ym mharagraff (6), ystyr "y dyddiad penodedig" yw'r dyddiad y cynhwyswyd am y tro cyntaf ddeunydd sylfaenol sy'n cynnwys yr organedd a addaswyd yn enetig ar y Gofrestr Genedlaethol yn unol â rheoliadau 6 a 7 o Reoliadau Deunyddiau Atgynhedlol y Goedwig (Prydain Fawr) 2002(2)."

(11) Yn rheoliad 26, hepgorer paragraffau (1)(ch) a (2).

- (i) determine the application, and
- (ii) notify the applicant in writing of the decision to grant or refuse the application, and the reasons for the decision.

(3) the period referred to in paragraph (2)(b) does not include any period beginning with the day on which the Welsh Ministers give notice in writing under section 111(6) of the Act that further information in respect of the application is required and ending on the day on which that information is received by the Welsh Ministers.

(4) Subject to paragraphs (5) and (6), a consent to market genetically modified organisms may be given for a maximum period of ten years beginning with the day on which the Welsh Ministers grant a consent under section 111 of the Act.

(5) The period of the first consent to market—

- (a) a genetically modified organism, or
- (b) a progeny of that genetically modified organism contained in a plant variety where the plant variety is intended only for the marketing of its seeds,

must end at the latest ten years after the date of the first inclusion of the first plant variety containing the genetically modified organism on a National List in accordance with regulation 3 of the Seeds (National Lists of Varieties) Regulations 2001(1).

(6) For the purpose of granting consent to market a genetically modified organism contained in forest reproductive material, the period of the first consent shall end at the latest ten years after the specified date.

(7) In paragraph (6), "the specified date" means the date of the first inclusion of basic material containing the genetically modified organism on the National Register in accordance with regulations 6 and 7 of the Forest Reproductive Material (Great Britain) Regulations 2002(2)."

(11) In regulation 26, omit paragraphs (1)(d) and (2).

(1) O.S. 2001/3510.
(2) O.S. 2002/3026.

(1) S.I. 2001/3510.
(2) S.I. 2002/3026.

(12) Yn rheoliad 27—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

“(1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru gytuno ar gais i adnewyddu caniatâd o dan adran 111(1) o’r Ddeddf i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig fel y mae’n ymwneud â diogelu iechyd dynol heb gytundeb yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.”;

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Rhaid i Weinidogion Cymru roi gwybod i’r ceisydd am benderfyniad ar gais i adnewyddu caniatâd i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig cyn gynted â phosibl a rhaid iddynt gynnwys, mewn unrhyw wrthodiad i adnewyddu caniatâd, y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.”

(13) Yn rheoliad 29(dd) yn lle’r geiriau o “i’r Comisiwn” hyd at “Aelod-wladwriaethau” rhodder “ar y ffurf berthnasol a nodir yn yr Atodiadau i Benderfyniad y Comisiwn 2009/770/EC”.

(14) Yn lle rheoliad 32 rhodder—

“Amrywio neu ddirymu caniatâd i farchnata

32.—(1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond amrywio neu ddirymu caniatâd i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig o dan adran 111(10) o’r Ddeddf heb gytundeb deiliad y caniatâd pan fo gwybodaeth newydd wedi dod ar gael y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai’n effeithio ar yr asesiad o’r risg o beri niwed i’r amgylchedd drwy ollwng yr organeddau.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ddirymu neu amrywio caniatâd i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig o dan adran 111(10) o’r Ddeddf fel y mae’n ymwneud â diogelu iechyd dynol heb gytundeb yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.”

(15) Yn rheoliad 33, hepgorer paragraffau (3) i (5).

(16) Yn rheoliad 35, yn lle paragraffau (1) i (9) rhodder—

“(1) Rhaid i’r gofrestr gynnwys y manylion a nodir ym mharagraffau (2) i (10).

(2) Mewn perthynas â hysbysiad gwahardd a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 110 o’r Ddeddf—

- (a) enw a chyfeiriad y person y mae’r hysbysiad yn cael ei gyflwyno iddo;
- (b) disgrifiad o’r organeddau a addaswyd yn enetig y mae’r hysbysiad yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â hwy;

(12) In regulation 27—

(a) for paragraph (1) substitute—

“(1) The Welsh Ministers must not grant, under section 111(1), of the Act an application for the renewal of a consent to market genetically modified organisms as it relates to the protection of human health without the agreement of the Health and Safety Executive.”;

(b) for paragraph (2) substitute—

“(2) The Welsh Ministers must communicate a decision on an application to renew a consent to market genetically modified organisms to the applicant as soon as possible and must include in any refusal to renew a consent the reasons for that decision.”

(13) In regulation 29(f), for the words from “the reports of” to “Member States” substitute “monitoring reports in the relevant format set out in the Annexes to Commission Decision 2009/770/EC”.

(14) For regulation 32 substitute—

“Variation or revocation of a consent to market

32.—(1) The Welsh Ministers may only vary or revoke a consent to market genetically modified organisms under section 111(10) of the Act without the agreement of the holder of the consent where new information has become available which the Welsh Ministers consider would affect the assessment of the risk of damage being caused to the environment by the release.

(2) The Welsh Ministers must not revoke or vary a consent to market genetically modified organisms under section 111(10) of the Act as it relates to the protection of human health without the agreement of the Health and Safety Executive.”

(15) In regulation 33, omit paragraphs (3) to (5).

(16) In regulation 35, for paragraphs (1) to (9) substitute—

“(1) The register must contain the particulars set out in paragraphs (2) to (10).

(2) In relation to a prohibition notice served by the Welsh Ministers under section 110 of the Act—

- (a) the name and address of the person on whom the notice is served;
- (b) the description of the genetically modified organisms in relation to which the notice is served;

- (c) y man lle bwriedir gollwng yr organeddau a addaswyd yn enetig;
 - (ch) at ba ddiben y bwriedir gollwng neu farchnata'r organeddau a addaswyd yn enetig;
 - (d) y rheswm dros gyflwyno'r hysbysiad;
 - (dd) unrhyw ddyddiad a bennwyd yn yr hysbysiad fel y dyddiad y daw'r gwaharddiad i rym.
- (3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4) ac mewn perthynas â chais am ganiatâd o dan adran 111(1) o'r Ddeddf—
- (a) enw a chyfeiriad y ceisydd;
 - (b) disgrifiad cyffredinol o'r organeddau a addaswyd yn enetig y mae'r cais yn cael ei wneud mewn perthynas â hwy;
 - (c) y man lle bwriedir gollwng yr organeddau a addaswyd yn enetig, i'r graddau y mae'r wybodaeth hon wedi'i hysbysu i Weinidogion Cymru;
 - (ch) at ba ddiben y bwriedir gollwng yr organeddau a addaswyd yn enetig (gan gynnwys unrhyw ddefnydd y bwriedir ar eu cyfer yn y dyfodol) neu, mewn perthynas â chaniatâd i farchnata, at ba ddiben y byddant yn cael eu marchnata;
 - (d) dyddiad arfaethedig eu gollwng;
 - (dd) yr asesiad risg amgylcheddol;
 - (e) y dulliau a'r cynlluniau ar gyfer monitro'r organeddau a addaswyd yn enetig ac ar gyfer ymateb i argyfwng;
 - (f) crynodeb o unrhyw gyngor y mae Gweinidogion Cymru wedi'i gael oddi wrth y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ollyngiadau i'r Amgylchedd ynghylch a ddylid caniatáu neu wrthod cais i ollwng, neu farchnata, organeddau a addaswyd yn enetig, a naill ai—
 - (i) yr amodau neu'r cyfyngiadau y mae'r Pwyllgor hwnnw wedi cynghori y dylid rhoi'r caniatâd yn unol â hwy, neu
 - (ii) crynodeb o'r rhesymau pam y mae'r Pwyllgor hwnnw wedi cynghori na ddylid rhoi'r caniatâd;
- (c) the location at which the genetically modified organisms are proposed to be released;
 - (d) the purpose for which the genetically modified organisms are proposed to be released or marketed;
 - (e) the reason for the service of the notice;
 - (f) any date specified in the notice as the date on which the prohibition is to take effect.
- (3) Subject to paragraph (4), in relation to an application for a consent under section 111(1) of the Act—
- (a) the name and address of the applicant;
 - (b) a general description of the genetically modified organisms in relation to which the application is being made;
 - (c) the location at which the genetically modified organisms are proposed to be released, to the extent that this information is notified to the Welsh Ministers;
 - (d) the purpose for which the genetically modified organisms are proposed to be released (including any future use to which they are intended to be put) or, in relation to a consent to market, the purpose for which they will be marketed;
 - (e) the intended dates of the release;
 - (f) the environment risk assessment;
 - (g) the methods and plans for monitoring the genetically modified organisms and for responding to an emergency;
 - (h) a summary of any advice the Welsh Ministers have received from the Advisory Committee on Releases to the Environment as to whether an application for release of, or to market, genetically modified organisms should be granted or rejected, and either—
 - (i) the conditions or limitations in accordance with which that Committee has advised that the consent should be granted, or
 - (ii) a summary of the reasons why that Committee has advised that the consent should not be granted;

- (ff) y crynodeb o'r wybodaeth a gynhwyswyd yn y cais sy'n ofynnol gan reoliad 12(1)(ch) neu, yn ôl y digwydd, o'r cais sy'n ofynnol gan reoliad 17(2)(g).

(3A) Yn ddarostyngedig i baragraff (4) ac i'r ffaith nad yw'r wybodaeth yn gyfrinachol, mewn perthynas â chais am ganiatâd o dan adran 111(1) o'r Ddeddf i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig—

- (a) enw a chyfeiriad y person sy'n gyfrifol am y marchnata, boed y gweithgynhyrhydd, y mewnoforiwr neu'r dosbarthwr;
- (b) enw masnachol arfaethedig y cynnyrch;
- (c) enwau'r organeddau a addaswyd yn enetig sydd yn y cynnyrch, gan gynnwys enwau gwyddonol a chyffredin, pan fo hynny'n briodol, yr organeddau rhieniol, yr organeddau derbyn a'r organeddau rhoi;
- (ch) marciau adnabod unigryw yr organeddau a addaswyd yn enetig sydd yn y cynnyrch;
- (d) cod cyfeirnod ar gyfer y cais a neilltuwyd gan Weinidogion Cymru;
- (dd) yr wybodaeth a gynhwysir yn y cais fel a bennir ym mharagraffau 3 a 7 o Atodlen 3;
- (e) gwybodaeth am samplau o'r organeddau a addaswyd yn enetig sydd wedi'u storio, gan gynnwys y math o ddeunydd, ei nodweddion genetig a'i sefydlogrwydd, swm y deunydd mewn storfa, a'r amodau storio priodol a'r oes silff.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn ymwybodol neu os deuant yn ymwybodol fod gwybodaeth ynglŷn ag organeddau a addaswyd yn enetig neu ynglŷn â diben eu gollwng neu eu marchnata wedi'i chyhoeddi a bod honno'n fanylach na'r hyn a fyddai'n bodloni gofynion paragraff (3), rhaid iddynt nodi cymaint o'r wybodaeth fanylach honno ar y gofrestr ag y byddant yn ystyried yn briodol.

(5) Mewn perthynas â chaniatadau a roddir o dan adran 111(1) o'r Ddeddf—

- (a) copi o'r caniatâd, a chyfeiriad at y cais y cafodd ei roi mewn perthynas ag ef;
- (b) unrhyw wybodaeth a gyflenwyd i Weinidogion Cymru yn unol ag amodau a bennwyd ar gyfer y caniatâd;

- (i) the summary of the information contained in the application required by regulation 12(1)(d) or as the case may be, of the application required by regulation 17(2)(j).

(3A) Subject to paragraph (4) and to the information not being confidential, in relation to an application for a consent under section 111(1) of the Act to market genetically modified organisms—

- (a) the name and address of the person who is responsible for the marketing, whether manufacturer, importer or distributor;
- (b) the proposed commercial name of the product;
- (c) the names of the genetically modified organisms in the product, including the scientific and common names of, where appropriate, the parental, recipient and donor organisms;
- (d) the unique identifiers of the genetically modified organisms in the product;
- (e) an application reference code assigned by the Welsh Ministers;
- (f) the information included in the application as specified at paragraphs 3 and 7 of Schedule 3;
- (g) information about stored samples of the genetically modified organisms, including the type of material, its genetic characterisation and stability, the amount of repository material, and the conditions of appropriate storage and shelf-life.

(4) Where the Welsh Ministers are or become aware that information regarding the genetically modified organisms or the purpose for which they will be released or marketed has been published which is more detailed than that which would satisfy the requirements of paragraph (3), they must enter so much of that more detailed information on the register as they consider appropriate.

(5) In relation to consents granted under section 111(1) of the Act—

- (a) a copy of the consent, and a reference to the application in respect of which it was granted;
- (b) any information supplied to the Welsh Ministers in accordance with conditions imposed on the consent;

- (c) y ffaith bod y caniatâd wedi cael ei amrywio neu ei ddiddymu, cynnwys yr hysbysiad y cafodd y caniatâd ei amrywio neu ei ddirymu ganddo, a chopi o'r caniatâd wedi'i amrywio;
- (ch) crynodeb o unrhyw gyngor y mae Gweinidogion Cymru wedi'i gael oddi wrth y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ollyngiadau i'r Amgylchedd ynghylch a ddylid amrywio neu ddirymu caniatâd i ollwng organeddau a addaswyd yn enetig.
- (6) Yr wybodaeth ganlynol ynghylch y risg y byddai niwed yn cael ei beri i'r amgylchedd gan organeddau a addaswyd yn enetig—
- (a) unrhyw wybodaeth a ddarperir i Weinidogion Cymru yn unol ag adran 111(6A) neu 112(5)(b)(i) o'r Ddeddf;
- (b) unrhyw wybodaeth ynglŷn â digwyddiad anrhagweledig sy'n digwydd mewn cysylltiad â gollyngiad organedd a addaswyd yn enetig a allai effeithio ar y risgiau sy'n bodoli o beri niwed i'r amgylchedd a'r wybodaeth honno wedi'i hysbysu i Weinidogion Cymru yn unol ag adran 112(5)(b)(iii) o'r Ddeddf.
- (7) Copi o unrhyw ganiatâd i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig a roddwyd cyn y diwrnod ymadael gan awdurdod cymwys Aelod-wladwriaeth.
- (7A) Copi o unrhyw adroddiad asesu a luniwyd yn unol â rheoliad 24(1)(c) neu 26(1)(c).
- (8) Lleoliad unrhyw organeddau a addaswyd yn enetig a dyfwyd yng Nghymru yn unol â chaniatâd i farchnata i'r graddau y mae'r wybodaeth honno yn cael ei chyflenwi i Weinidogion Cymru yn unol â'r gofynion monitro a bennwyd ar gyfer y caniatâd.
- (9) Unrhyw benderfyniad a fabwysiadwyd cyn y diwrnod ymadael gan y Comisiwn Ewropeaidd yn unol ag Erthygl 18 o'r Gyfarwydddeb Gollyngiadau Bwriadol.”
- (17) Yn lle rheoliad 36 rhodder—
- (c) the fact that the consent has been varied or revoked, the contents of the notice by which the consent was varied or revoked, and a copy of the varied consent;
- (d) a summary of any advice the Welsh Ministers have received from the Advisory Committee on Releases to the Environment as to whether a consent to release genetically modified organisms should be varied or revoked.
- (6) The following information concerning the risk of damage being caused to the environment by genetically modified organisms—
- (a) any information provided to the Welsh Ministers in accordance with section 111(6A) or 112(5)(b)(i) of the Act;
- (b) any information relating to an unforeseen event occurring in connection with a release of a genetically modified organism which might affect the risks there are of damage being caused to the environment notified to the Welsh Ministers in accordance with section 112(5)(b)(iii) of the Act.
- (7) A copy of any consent to market genetically modified organisms granted before exit day by a competent authority of a Member State.
- (7A) A copy of any assessment report produced in accordance with regulation 24(1)(c) or 26(1)(c).
- (8) The location of any genetically modified organisms grown in Wales pursuant to a consent to market insofar as that information is supplied to the Welsh Ministers in accordance with the monitoring requirements imposed on the consent.
- (9) Any decision adopted before exit day by the European Commission in accordance with Article 18 of the Deliberate Release Directive.”
- (17) For regulation 36 substitute—

“Cadw'r gofrestr

36.—(1) Rhaid i'r wybodaeth a ragnodir yn rheoliad 35(2) gael ei gosod ar y gofrestr o fewn deuddeg diwrnod o gyflwyno'r hysbysiad gwahardd.

“Keeping the register

36.—(1) The information prescribed in regulation 35(2) shall be placed on the register within twelve days of the prohibition notice being served.

(2) Rhaid i'r wybodaeth a ragnodir ym mharagraffau (a) i (e) ac (ff) o reoliad 35(3) gael ei gosod ar y gofrestr o fewn deuddeg diwrnod o'r adeg y mae'r cais am ganiatâd i ollwng neu farchnata wedi dod i law Gweinidogion Cymru.

(3) Rhaid i'r wybodaeth a ragnodir yn rheoliad 35(3)(f) gael ei gosod ar y gofrestr o fewn deuddeg diwrnod o adeg rhoi neu wrthod y caniatâd.

(4) Rhaid i'r wybodaeth a ragnodir yn rheoliad 35(3A) gael ei gosod ar y gofrestr o fewn deuddeg diwrnod o'r adeg y mae'r cais am ganiatâd i farchnata wedi dod i law Gweinidogion Cymru.

(5) Rhaid i'r wybodaeth a ragnodir yn rheoliad 35(5)(a) gael ei gosod ar y gofrestr o fewn deuddeg diwrnod o roi'r caniatâd.

(6) Rhaid i'r wybodaeth a ragnodir yn rheoliad 35(5)(b) ac (ch) gael ei gosod ar y gofrestr o fewn deuddeg diwrnod ar ôl iddi ddod i law Gweinidogion Cymru.

(7) Rhaid i'r wybodaeth a ragnodir yn rheoliad 35(5)(c) gael ei gosod ar y gofrestr o fewn pedwar diwrnod ar ddeg o adeg dirymu neu amrywio'r caniatâd.

(8) Rhaid i'r wybodaeth a ragnodir yn rheoliad 35(6) a (10) gael ei gosod ar y gofrestr o fewn pedwar diwrnod ar ddeg o'r adeg y daeth i law Gweinidogion Cymru.

(9) Rhaid i'r wybodaeth a ragnodir yn rheoliad 35(7A) gael ei gosod ar y gofrestr o fewn deuddeg diwrnod o'r adeg y cafodd ei llunio.

(10) Rhaid i'r wybodaeth a ragnodir yn rheoliad 35(8) gael ei gosod ar y gofrestr o fewn pedwar diwrnod ar ddeg o'r adeg y daeth i law Gweinidogion Cymru.”

(18) Yn Atodlen 3—

- (a) ym mharagraff 2, hepgorer “yn yr Undeb Ewropeaidd”;
- (b) ym mharagraff 5, hepgorer “o fewn yr Undeb Ewropeaidd”;
- (c) ym mharagraff 8, hepgorer “sydd wedi'i sefydlu yn yr Undeb Ewropeaidd”;
- (d) ym mharagraff 14, yn lle “yn yr Undeb Ewropeaidd” rhodder “yng Nghymru”.

(19) Yn Atodlen 4, ym mharagraff 6, hepgorer y geiriau o “, ac a fwriedir gofyn” hyd at y diwedd.

(2) The information prescribed in paragraphs (a) to (g) and (i) of regulation 35(3) shall be placed on the register within twelve days of the receipt by the Welsh Ministers of the application for consent to release or market.

(3) The information prescribed in regulation 35(3)(h) shall be placed on the register within twelve days of the consent being granted or refused.

(4) The information prescribed in regulation 35(3A) shall be placed on the register within twelve days of the receipt by the Welsh Ministers of the application for consent to market.

(5) The information prescribed in regulation 35(5)(a) shall be placed on the register within twelve days of the consent being granted.

(6) The information prescribed in regulation 35(5)(b) and (d) shall be placed on the register within twelve days of its receipt by the Welsh Ministers.

(7) The information prescribed in regulation 35(5)(c) shall be placed on the register within fourteen days of the consent being revoked or varied.

(8) The information prescribed in regulation 35(6) and (10) shall be placed on the register within fourteen days of its receipt by the Welsh Ministers.

(9) The information prescribed in regulation 35(7A) shall be placed on the register within twelve days of its production.

(10) The information prescribed in regulation 35(8) shall be placed on the register within fourteen days of its receipt by the Welsh Ministers.”

(18) In Schedule 3—

- (a) in paragraph 2, omit “in the European Union”;
- (b) in paragraph 5, omit “within the European Union”;
- (c) in paragraph 8, omit “established in the European Union”;
- (d) in paragraph 14, for “the European Union” substitute “Wales”.

(19) In Schedule 4, in paragraph 6, omit the words from “, and whether the views” to the end.

Diwygiadau i Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar draws Ffin) (Cymru) 2005

3.—(1) Mae Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar draws Ffin) (Cymru) 2005(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodlen—

- (a) yn Rhan 1, yn nhestun yr ail golofn yn rhes “Erthygl 10(3)”, yn lle’r geiriau o “heb fod cytundeb” hyd at y diwedd rhodder “na chaniateir eu marchnata yn y Deyrnas Unedig, neu heb i awdurdod cymwys y wlad sy’n mewnfario gytuno’n benodol i awdurdodi’r mewnfario.”;
- (b) yn Rhan 2, yn nhestun yr ail golofn yn rhes “Erthygl 6”, hepgorer “ac i’r Comisiwn”.

Dirymu

4.—(1) Mae rheoliad 4(2) o Reoliadau yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018(2) wedi ei ddirymu.

(2) Mae Rhan 3 o Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol a’u Symud ar draws Ffin) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019(3) wedi ei dirymu.

(3) Mae rheoliad 17 o Reoliadau Materion Gwledig, yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Bwyd (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2019(4) wedi ei ddirymu.

Amendments to the Genetically Modified Organisms (Transboundary Movement) (Wales) Regulations 2005

3.—(1) The Genetically Modified Organisms (Transboundary Movement) (Wales) Regulations 2005(1) are amended as follows.

(2) In the Schedule—

- (a) in Part 1, in the text in the second column in the row “Article 10(3),” for the words from “without authorisation” to the end substitute “which are not permitted to be marketed in the United Kingdom, or without authorisation to the import having been expressly agreed by the competent authority of the importing country.”;
- (b) in Part 2, in the text in the second column in the row “Article 6”, omit “and to the Commission”.

Revocations

4.—(1) Regulation 4(2) of the Environment, Planning and Rural Affairs (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2018(2) is revoked.

(2) Part 3 of the Genetically Modified Organisms (Deliberate Release and Transboundary Movement) (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019(3) is revoked.

(3) Regulation 17 of the Rural Affairs, Environment, Fisheries and Food (Miscellaneous Amendments and Revocations) (Wales) Regulations 2019(4) is revoked.

Lesley Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
4 Rhagfyr 2019

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs,
one of the Welsh Ministers
4 December 2019

©©Hawlfraint y Goron 2019

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2019

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

(1) O.S. 2005/1912 (Cy. 155).
(2) O.S. 2018/1216 (Cy. 249).
(3) O.S. 2019/379 (Cy. 94).
(4) O.S. 2019/463 (Cy. 111).

(1) S.I. 2005/1912 (W. 155).
(2) S.I. 2018/1216 (W. 249).
(3) S.I. 2019/379 (W. 94).
(4) S.I. 2019/463 (W. 111).

£6.90

W201912051004 12/2019

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2019/1492>

ISBN 978-0-348-20491-9



9 780348 204919